***GWASANAETH CYMORTH CRISTNOGOL 2005***

Emyn 788: 'O Dduw, ein Tad'

Llefarydd 1: Yn ystod Cymorth Cristnogol eleni llawenhawn ein bod ni yn gwneud gwahaniaeth. Yn ystod ein gwasanaeth byddwn yn diolch i Dduw am weddi ffyddlon, rhoi haelionus a gweithredu ymroddedig miloedd o gefnogwyr Cymorth Cristnogol sy'n helpu i newid bywydau pobl ledled y byd, pobl sy'n dioddef oherwydd tlodi ac anghyfiawnder. Mae dileu dyled, masnach deg a phrosiectau datblygu yn galluogi pobl i gael bywyd gwell. Eto, gwyddom fod llawer i'w wneud o hyd ac rydym am ymgyflwyno o'r newydd i roi, i weithredu ac i weddïo, i sicrhau ein bod ni, gyda'n gilydd, yn dal i wneud gwahaniaeth, pa mor fach bynnag yw ein cyfraniad ni fel unigolion.

Llefarydd 2: Ond gan mai Duw yw'r crëwr a'r cynhaliwr, rhown ein moliant iddo ef am ei gariad a'i ras. 'Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a'n Duw, i dderbyn y gogoniant a'r anrhydedd a'r gallu.

Emyn 223: Mawl fo i'r Arglwydd'

Arweinydd 3 + 4 (bob yn ail):

**Salm o Fawl**

Chwi holl bethau grymus, molwch yr Arglwydd:
Rhaeadr Victoria a'r Cefnfor Tawel,
y teigr a'r tyranasor,
y morfil danheddog a'r eryr aur,
grymoedd disgyrchiant a thynfa'r llanw,
mellt fforchog a bloedd y dorf.

3+4: **Molwch a mawrygwch yr hwn a'ch creodd chwi.**

Chwi'r holl bethau addfwyn, molwch yr Arglwydd:
llewyrch y goleuni ac anadliad yr awel,
sgrialu'r morgrugyn a gwingo'r penbwl,
deigryn yn y llygad a gwallt ar y pen,
yr hedyn mwstard a'r gronyn burum,
sawr y rhosyn a sisial paderau.

3 + 4: **Molwch a mawrygwch yr hwn a'ch creodd chwi.**

Bydded i bob peth gweladwy foli'r Arglwydd!
Cadwyni o fynyddoedd uchel a dail ar y coed,
Creaduriaid pitw bach, tyrrau uchel sy'n cofleidio'r nen,
Dŵr sy'n byrlymu a sêr yn y nen,
Lliwiau'r enfys, pobl y cenhedloedd,
Mellt a thirlun, machlud a chysgod.

3 + 4: **Rhowch foliant llawn i'r Un a'ch creodd chi.**

Bydded i bob peth anweladwy foli'r Arglwydd!
Ocsigen sy'n rhoi bywyd, oerni'r awel,
Cerrynt trydan a thonnau radio,
Sawr y blodyn a blas ar dafod,
Cri am gyfiawnder, dirgelwch cwsg,
Tawelwch a dwyster, cerddoriaeth a chwerthin:

3 + 4: **Rhowch foliant llawn i'r Un a'ch creodd chi.**

Arweinydd 5: Mae'n hawdd meddwl fod problemau'r byd yn rhy fawr i unrhyw un ohonom ni fedru gwneud unrhyw beth amdanyn nhw. Ond dangosodd Iesu mai o ddechreuad bach iawn yr adeiledir Teyrnas Dduw. Gall ein gweddïau, ein rhoddion a'n protestiadau ymddangos yn fach iawn i ni, ond fe allan nhw wneud gwahaniaeth enfawr.

Darlleniad: Mathew 25: 31–40

Emyn 812: 'Bydd gyda ni'

Arweinydd 6: Mae angen i ni helpu i wneud gwahaniaeth trwy alw ar i bobl gael eu rhyddhau o gadwyni dyled na ellir mo'i had-dalu.

Arweinydd 7:
Gwyddai am fawredd pethau bach,
Gwelodd ddwy geiniog ar y plât
A theimlo'r ffydd mewn dwylo plant,
Bendithiodd hwy.
Daw'r bach yn fawr yn nwylo Duw,
Rhydd rym i'n byw.

Arweinydd 6: Mae angen i ni helpu i wneud gwahaniaeth trwy gefnogi mudiadau sy'n rhoi offer neu anifeiliaid i bobl dlawd i'w galluogi nhw i newid pethau.

Arweinydd 7:
Gwyddai am dlysni pethau bach,
Gweld adar to yn hedfan fry.
A'r hedyn gwenith syrthiodd i'r llawr,
fe'i malodd.
Teinlodd mewn hedyn wyrth y byw
Trwy rym ein Duw.

Arweinydd 6: Mae angen i ni helpu i wneud gwahaniaeth trwy ddewis prynu nwyddau masnach deg.

Arweinydd 7:
Ac felly'r deyrnas ddaw, medd ef,
yn ymchwydd cudd y burum,
mewn afradloniaid ddaw i'r wledd,
mewn bara briw;

mae'r hyn ddibrisir gan y byd
yn llawn gras Duw.

Arweinydd 8: Ond pam yr holl ymdrechu, yr holl godi arian, yr holl boeni am bobl bell? Oherwydd mai dyma'r weinidogaeth a gyflwynodd Iesu i'w ddilynwyr. Dyma a ddywed wrth ddisgyblion Ioan Fedyddiwr oedd yn ei holi ynglŷn â'i genhadaeth:

Darlleniad: Mathew 11: 4–6

Emyn 425: 'Agor ein llygaid' (I'w ganu'n dawel, ac eilwaith yn dilyn y gweddïau)

Arweinydd 9: Gweddïwn. O Dduw ein Tad a'n Creawdwr, diolch am holl adnoddau cyfoethog y byd, am gyfoeth y ddaear a'r môr ac am sgiliau meddwl a llaw. Gweddïwn dros y rhai hynny sydd wedi eu blino gan yr ymdrech ddidostur i gadw'n fyw, dros y rhai na all fyth edrych ymlaen at bryd da o fwyd na gwely cyfforddus, dros y rhai sy'n chwilio am gartref a lloches: pob un ohonynt yn ysglyfaeth i ryfel, clefyd, trychineb naturiol neu anobaith.

Arweinydd 10: Dad, gorchmynnodd dy fab, Iesu, i ni garu'n gilydd: cyffeswn ger dy fron fod ein bywyd ni mor wahanol i'w fywyd ef, ac anwybyddwn ei orchymyn mor rhwydd, gan fod yn aml yn gwbl ddifater yn wyneb newyn a thlodi. Ond, Arglwydd, y mae stori dy Fab yn ein hatgoffa ei fod yn byw yn nes at y tlawd na'r cyfoethog, yn nes at y difreintiedig na'r breintiedig, a'i fod yn deall y dioddefus. Helpa ni felly, drwy dy Ysbryd Glân, i fod yn Grist-debyg yn ein byw, ac i geisio dileu popeth sy'n rhwystro eraill rhag cael bywyd llawn.

Arweinydd 9: Diolch i Ti, Dad, am waith Cymorth Cristnogol; am y cymorth i filiynau o bobl mewn trybini neu galedi neu yn eu hymdrech am well bywyd; am ynni a gweledigaeth Cristnogion dros y môr sy'n cymryd yr hyn a roddwn ni a'i ddefnyddio yn gyfiawn ac mewn cariad; am ynni a gweledigaeth pawb sy'n gweithio'n ddyfal i ddatblygu'r byd, trwy roi, trwy weddïo, trwy ymdrechu. Gweddïwn am arweiniad dy Ysbryd dros asiantaethau a llywodraethau, fel y gallont weithio i ddileu tlodi ac angen. Gofynnwn hyn yn enw Iesu. Amen.

Emyn 425: 'Agor ein llygaid'

Anerchiad

Emyn 843: 'A glywaist ti waedd'

Cyhoeddiadau a chasgliad

Emyn 828: 'Arglwydd, maddau in mor dlodaidd'

Y Fendith